

O. M. Edwards a'i hen gyfaill 'Nodwr'

AR Y FFORDD o bentref Llanuwchllyn i gwm Cynllwyd, rhwng Penrhwiwdwrch a Choed-y-pry, safai bwthyn diddorol o'r enw Tynclawdd ('roedd yna dŷ arall o'r enw yn y cae gerllaw hefyd yn y ganrif ddiwethaf). Os trowch chi i *Llythyrau Syr O. M. Edwards ac Elin Edwards 1887-1920*, a olygwyd gan Hazel Walford Davies, fe ddowch ar draws dau gyfeiriad at Gwen Jones, Tynclawdd, a drigai yn y bwthyn gyda Hugh ei gŵr.

Y mae'r cyfeiriad cyntaf yn llythyr Elin at O.M. yn Ionawr 1888 yn dweud iddi alw yn Nhynclawdd ar ei ffordd o Gaerhys ar 16 Ionawr a chael mai dim ond 'Gwen bach' (un o chwe phlentyn yr aelwyd) oedd adre a bod Gwen y fam yn Ffair y Bala.

Mae'n rhaid fod Elin a phlant Tynclawdd yn ffrindiau oherwydd y mae'r ail gyfeiriad yn ei llythyr at O.M. ar 6 Mai, 1890, yn dweud fod Gwen Jones yn y Prys Mawr 'ddydd Llun pan ddaeth eich llythyr'.

Yr oedd O.M. hefyd yn gyfeillgar â phlant Tynclawdd a'u rhieni a cheir aml gyfeiriad yn ei lythyrau atynt. Y mae sôn amdanynt droeon yn y rhan gyntaf o Gofiant O.M. gan W. J. Gruffydd. Ar dudalen 13 dyfynnir o lythyr mab Coed-y-pry at Hugh Jones, Tynclawdd, 24 Hydref 1880, lle mae'n dweud: 'Os mai seiat yw y nefoedd, er mwyn i mi fod ar fy hapusaf rhaid iddi fod yn debyg i seiat Llanuwchllyn'.

Gymaint oedd dylanwad Hugh Jones ar O.M. fel y sgrifennodd golofn amdano yn *Y Seren* (wythnosolyn y Bala a'r cylch a sefydlwyd yn 1885) ar ôl ei farw ar 27 Rhagfyr 1887:

'Yr oedd yn ddarllenwr mawr. Meddyliwn y pryd hwnnw nad oedd drysordy ar y ddaear tebyg i'w lyfrgell fechan ef yn y bwthyn to gwellt. A hen gyfeillion iddo, nid addurniadau yn unig oedd ei lyfrau. Efe a'm dysgodd i brofi melusder y Salmâu ac i weled mawredd Eiseia, efe a ddangosodd imi gyntaf gryfder chwaraeus Gwilym Hiraethog a dyfnder clir traethodau Dr. (Lewys) Edwards. Dyma ogoniant a chryfder Cymru, athrawon gwledig o'i fath ef.'

Yn nhŷ Mary, merch Hugh Jones, a John Roberts ei gŵr a oedd yn saer creffus, y lletyai O.M. pan oedd yn Ysgol Tytandomen. Safai 'Bridge Cottage' yng ngolwg Grin enwog y Bala a gan fod Mary Roberts wedi bod yn forwyn yng Nghynlas, ac mai tad ei gŵr a ddysgodd yr 'ABC' i Tom Ellis a D. R. Daniel, nid rhyfedd fod y ddau lanc o Gefnddwyssarn yn ymwelwyr beunyddiol â'r bwthyn.

Chwalwyd y bwthyn i wneud

lle i reilffordd y Bala i Ffestiniog ond wedi symud i '3 Church Row' (ar draws y ffordd i Eglwys y Crist ac Ysgol y Berwyn) bu Mary Roberts yn dal i letya plant y wlad a ddôl i ysgolion y Bala. Un o'r rhai olaf i brofi'i lletygarwch yw Catherine Williams, Rhydsarn, Llanuwchllyn, a oedd yno drigain a deg o flynyddoedd yn ôl.

YN Y llythyr yn sôn am y Seiat y dyfynnwyd ohono eisoes y mae O.M. yn atgoffa Hugh Jones, Tynclawdd, fod ei fab 'Dafydd a minau pan yn blant (oherwydd diffyg lle yn cael myned i'r seti croeson) a Dafydd yn cadw i fyny urddas y lle trwy Amenu yn soniarus gyda'r hen bobl'.

Yr oedd y Dafydd hwn — David Thomas — yn gyfaill agos i O.M. ac fe'i ganed union flwyddyn ar ôl mab Coed-y-pry. Fel llawer o'i genhedlaeth aeth Dafydd i Lannau Mersi i chwilio am waith a bu'n ŵr amlwg ym mywyd Cymry Lerpwl hyd ei farw.

Magodd ef a Jane ei briod eu plant yn Gymry da yn y ddinas ac yr oedd y teulu yn gyfeillgar iawn gyda theulu Gwenda, fy ngwraig, yng Nghapel y Presbyteriaid yn Douglas Road.

Un o feibion Dafydd a Jane Jones oedd Dafydd ap Dafydd, a magodd yntau a Heddwen ei briod (chwaer y brodyr Idris Roberts, *Y Cymro* a'r BBC, ac Emyr y pregethwr a'r llenor) eu meibion Glyn ac Emyr yn Gymry Cymraeg. Ac y mae merched Emyr a'i wraig, Ann, sy'n byw yn Mow Cop (rhwyng Stoke a Congleton) yn llefaru'r Gymraeg fel eu hynafiaid yn Nhynclawdd.

CYFLWYNODD Emyr imi fanylion diddorol am ei dylwyth a chopiau o lythyrau a chardiau a dderbyniodd ei daid oddi wrth O.M. Yn eu plith y mae sawl un sy'n holi am gymorth Dafydd ynglŷn â deunydd i'w gylchgronau, a'r deunydd hwnnw gan amlaf oedd lluniau i *Cymru a Cymru'r Plant*.

Dyma bwt o lythyr di-ddyddiad: 'Yr wyf yn gyrru yn eu holau y darluniau sydd wedi eu cerfio. Mae y lleill yn llaw y cerfiwr'.

Yn llythyr 7 Ionawr 1899 y mae'n sgrifennu fel hyn at Dafydd:

'Drwg gennyf am y camgymeriad — y mae arnaf ofn na ddaw'r darlun o'r plant dan fis Mawrth neu fis Ebrill, yr wyf yn gorfod edrych ymhell ymlaen gyda'r darluniau, ac ni wiv rhai gormod yn yr un rhifyn. Ond bydd darlun y ddau blentyn yn sicr o ddod.'

Y mae O.M. yn ychwanegu sylwadau diddorol ynglŷn â rhywun a fethodd ynglŷn â'i oed:

'ie, 40, nid 39 yw'r ffigur. Nis gwn pwy yrrodd y peth i'r papur neuwydd. Yr oeddwn i'n wael yn fy ngwely y diwrnod hwnnw, ac ni dderbyniais un llongyfarchiad o gwbl. Rhywun oedd yn ysgrifennu ar ei gyfer. Yr wyf yn teimlo fy hun yn hen iawn byth er pan gollais y bachgen.' (Ab Owen a fu farw ar 8 Mawrth, 1897.)

Dri mis cyn hynny yr oedd O.M. yn dweud wrth Dafydd ei gyfaill: 'Prysur iawn wyf fi, a gwannach nag y byddwn yn y dyddiau gynt'. Ac mewn llythyr arall (di-ddyddiad) mae O.M. yn gorfod gwrthod gwahoddiad i Lerpwl i annerch y Cymry alltud:

'Yr wyf wedi gorfod gwrthod pob tentasiwn i adael Rhydychen er ys rhai blynyddoedd, oddigerth pan y byddaf yn ymlusgo adre weithiau i Lanuwchllyn i orffwys, — a rhaid i mi wrthod eto am lawer o amser. Y mae fy ngwaith yma'n galed iawn, — nid oes gennyf amser hyd yn oed i ysgrifennu llythyrau. Anaml iawn y caf feddwl am Gymru; wedi darlithio am ryw chwe awr, bydd fy meddwl yn rhy luddedig i feddwl hyd yn oed am fore oes. Yr wyf ti'n cofio yn llawer pellach yn ôl na fi; yr wyf imau yn dyheu am dipyn o hamdden i feddwl am ddyddiau dedwydd mebyd.'

YM MAWRTH 1903 y mae O.M. yn anfon at Dafydd i ofyn am gymorth unwaith eto:

'Byddaf yn ddiolchgar iawn am ddarluniau dirwestwyr a dyngarwyr blaenllaw Cymry Lerpwl — yn enwedig os caf ryw ddwsin ohonynt ar unwaith, gan y golygai hynny ychydig o gynhildeb cerfio. Cymru

fuasai'r lle gorau iddynt, gellid eu rhoddi yn C.Plant wedyn. Hoffwn gael ychydig o hanes eu bywyd, y mae'n debyg y rhoddent ychydig fanylion, — lle eu ganwyd, eu haddysgwyl etc.'

Ar wahân i gynorthwyo O.M. gyda'r cylchgronau a llafurio'n ddi-orffwys yng nghapel Douglas Road ac yn y cymdeithasau Cymraeg, cymwynas fawr arall o eiddo Dafydd Jones oedd sgrifennu colofn wythnosol i *Seren* y Bala am flynyddoedd dan yr enw *Nodwr*. Anghofwyd am y Dafydd gan lawer un ac fel *Nodwr* yr adwaenid ef yn Lerpwl a Phenllyn.

Byddai ganddo bytiau difyr yn sôn am bob math o bynciau yn y golofn ond yr oedd ynddi bob amser ofod i sôn am y cleifion o Benllyn a oedd yn ysbytai Lerpwl. Yr oedd yn ymwelydd selog â'r ysbytai i chwilio am y Cymry ac mewn dyddiau pan nad oedd yn hawdd teithio o Gymru i'r ddinas gwnaeth gryn gymwynas yn sôn am y cleifion a phorthi'u perthnasau â gwybodaeth amdanynt.

Nid fod pawb yn cymeradwyo hynny oherwydd byddai *Nodwr* yn aml wedi sôn am rywrai nad oeddynt am i neb wybod eu bod yn gleifion yn Lerpwl!

Byddai *Nodwr* yn ei beicio hi o Lerpwl i Lanuwchllyn bob haf i weld ei hen gartref ac i ymddoi ymlith ei gyfoedion. Y mae Ifor Owen yn cofio dod o hyd iddo ar gyrion Caer un tro a bu'r ddau yn cyd-farchogaeth at Gefnddwyssarn lle'r ymadawodd Ifor am gartre ei hynafiaid yn y Pentre.

D. TECWYN LLOYD ar drywydd

Y stori a dyfodd am 'Ferch Megan'

PWY FUASAI'N dychmygu fod yr alaw werin hysbys, 'Merch Megan' wedi ei chambriodoli gan lawer ar un adeg i Beethoven!? Digon gwir — dyma sut y bu:

Tua dechrau'r 19 ganrif, sgrifennodd y bardd Gwyddelig Thomas Moore (1779-1852) eiriau i un o'i *Sacred Melodies* (tua 1820) o dan y teitl 'Dream of St. Jerome' a'u gosod i drefniant o thema gyntaf symudiad araf Ail Symffoni Beethoven.

Ddeugain mlynedd yn ddiweddarach, mae un o gymeriadau nofel gan Thackeray (*The Adventures of Philip*) yn cyfeirio at hyfrydwch y gân hon fel 'Beethoven's "Dream of St. Jerome"' ac ar unwaith — canys 'roedd y nofel yn un boblogaidd — bu galw mawr am gopiau o'r gwaith tybiedig hwn gan Beethoven.

Ar y pryd, 'roedd y cerddor o Gymro, Brinley Richards (1819-85) yn gweithio i gyhoeddw'r cerddoriaeth yn Llundain a dyma hwnnw'n gorchymyn Richards i fynd ati ar unwaith i ddiwallu'r galw am y 'Dream of St. Jerome'. Lluniodd yntau ddarn dau-symudiad allan o un o felodiau Beethoven ('Love of our neighbours' yn Saesneg) a'r gân werin Gymraeg 'Merch Megan'.

O dan y teitl, 'Dream of St. Jerome', cyhoeddwyd a dderbynwyd y cywaith hwn wedyn am lawer blwyddyn fel gwir gyfansoddiad gan y meistr mawr ei hun ac fel hyn y daeth Beethoven yn gyfansoddwr y gân Gymraeg 'Merch Megan'.

Tybed a oes copi o hwn ar gael yn rhywle erbyn hyn? Nid yr hen lolo oedd yr unig un i roi ei wyau ei hun ym masged rhywun arall enwocach!